**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: HIDCC/PO/0286/24

Mike Hedges AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdyddd
Caerdydd
CF99 1SN

18 Hydref 2024

Annwyl Mike,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 24 Gorffennaf mewn ymateb i'm diweddariad ar Reoliadau Masnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Diwygio a Swyddogaethau Deddfwriaethol) a Iechyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2022 ("Rheoliadau 2022").

Rydych yn gofyn am amserlen bendant ar gyfer cyflwyno Offeryn Statudol (OS) diwygio i ddatrys Pwynt Adrodd 25. Mae fy swyddogion yn gweithio i gyflwyno hyn o fewn y chwe mis nesaf. Hyderaf fod yr ymrwymiad hwn yn rhoi sicrwydd addas, ond pe bai sefyllfa fel ymateb i achosion brys, byddai'n rhaid ailedrych ar y llinell amser hon. Byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor os bydd amserau'n newid.

O ran Pwynt Adrodd 30, nodaf eich awgrym ynghylch hysbysu'r Senedd os daw'n amlwg nad yw'r ymrwymiad hwn yn debygol o gael ei gyflawni. Byddwch yn ymwybodol mai fi, yn fy rôl flaenorol fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, oedd yn ceisio ymrwymiad gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru a'r Trefnydd ar y pryd, i newid y drefn o fod yn negyddol i gadarnhaol. Felly, byddwch yn gwerthfawrogi fy mod yn awyddus i'r newid hwn gael ei gyflawni.

Fodd bynnag, byddwch yn ymwybodol fod y Rhaglen Ddeddfwriaethol hyd ddiwedd y Senedd hon wedi'i chyhoeddi ac ar hyn o bryd nid oes cyfrwng deddfwriaethol ar gael i alluogi'r newid hwn. Rwyf hefyd yn teimlo'n gryf nad mater i'r Cabinet hwn yw penderfynu ewyllys Cabinetau'r dyfodol trwy bennu dyddiad erbyn pryd y bydd cyfleoedd i fynd i'r afael â'r pwynt adrodd hwn yn dod i ben.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Huw.Irranca-Davies@llyw.cymru
Correspondence.Huw.Irranca-Davies@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd fy swyddogion yn parhau i chwilio am gyfleoedd fel mater o drefn i ddeddfu ar y newid hwn ac ni fyddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd tan y bydd rhywbeth i'w adrodd.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gwnsler Cyffredinol a’r Gweinidog Cyflawni.

Yn gywir,



**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs